

Dogfen Canllaw - Rhaglen Hyfforddiant Dechrau'n Deg

1. Pwrpas

Bwriad Carfan Hyfforddi a Datblygu Dechrau'n Deg (y Garfan) yw darparu cyfleoedd hyfforddi addas a pherthnasol sy'n bodloni anghenion gweithlu gofal plant Dechrau'n Deg a'r gweithlu gofal plant a chwarae ehangach. Dylai'r canllawiau isod gael eu dilyn er mwyn sicrhau bod y broses yn deg ar gyfer pob ymarferydd a hyrwyddo arfer gorau ym mhob rhan o gynllun Dechrau'n Deg.

2. Y Broses Cadw Lle

Dylai ymarferwyr wneud cais am le ar gwrs gan ddefnyddio'n system cadw lle ar-lein; enw'r system yma ar hyn o bryd yw SDMS. Fel arall mae modd cadw lle dros y ffôn. Mae gofyn i bob dysgwr ddarllen a derbyn Hysbysiad Preifatrwydd y Garfan cyn gwneud cais. Mae'r hysbysiad preifatrwydd yma'n esbonio sut rydyn ni'n casglu a chadw'ch data. Fydd ddim modd i'r Garfan brosesu unrhyw geisiadau heb y cytundeb yma.

Byddwn ni'n anfon cadarnhad o le ar gyfer cyrsiau hyfforddi i'r cyfeiriad e-bost sydd wedi'i nodi ar system SDMS. Eich cyfrifoldeb chi yw hi i sicrhau mai dyma'r cyfeiriad e-bost diweddaraf ar eich cyfer chi. Dylech chi ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost yma er mwyn anfon unrhyw negeseuon.

Bydd disgwyl i arweinwyr lleoliadau lofnodi ffurflen ganiatâd sy'n nodi eu bod nhw'n cytuno talu unrhyw dâl cosb ar ran eu staff nhw cyn y mae modd cadw lle.

Dylai pob cais am hyfforddiant mewn perthynas â lleoliad Dechrau'n Deg yr Awdurdod Lleol gael ei awdurdodi gan arweinydd y lleoliad ac hefyd gan aelod o'r garfan sicrhau ansawdd gofal plant cyn gwneud cais. O ran lleoliadau gofal plant preifat a gwirfoddol sydd wedi'u comisiynu i gynnal sesiynau Dechrau'n Deg, dylai pob cais am hyfforddiant gael ei gymeradwyo gan arweinydd y lleoliad cyn gwneud cais.

Byddwn ni'n trefnu bod cyrsiau'n cael eu cynnal y tu allan i oriau weithredu'r lleoliad lle bo'n bosibl.

Dylai ymarferwyr gwblhau pob rhan o'r cwrs, oni bai bod y Garfan neu hyfforddwr y cwrs wedi cytuno i drefniadau eraill ymlaen llaw. Dylai ymarferwyr ddod i bob sesiwn, o'r sesiwn cyntaf i'r sesiwn olaf. Os yw'r cwrs yn cynnwys mwy nag un sesiwn, dylai'r ymarferydd ddod i bob sesiwn. Hyfforddwr y cwrs fydd yn penderfynu pwy sy'n derbyn tystysgrif o ran yr unigolion sydd ddim yn cwblhau'r cwrs llawn.

Er mwyn cynnal y cwrs, mae angen o leiaf 4 person. Mae hyn yn berthnasol ar gyfer cyrsiau sy'n cael eu cynnal yn Gymraeg a Saesneg.

3. Cyfeirnodau unigryw

Bydd pob ymarferydd Dechrau'n Deg yn derbyn cyfeirnod unigryw a fydd yn caniatáu i'r garfan fonitro presenoldeb yn y sesiynau hyfforddi. Bydd ymarferwyr yn derbyn y cyfeirnod yma cyn dechrau'r tymor. Fydd dim modd i ymarferydd arall ddefnyddio'r cyfeirnod unigryw yma. Mae hyn er mwyn sicrhau bod holl ymarferwyr Dechrau'n Deg yn cael manteisio ar yr hyfforddiant diweddaraf. Caiff y rhif yma ei ddyrannu yn unol â'r gymhareb oedolyn/plentyn

yn y lleoliad ac felly mae'n hanfodol bod ymarferwyr yn rhoi gwybod i ni am y pethau canlynol:

- Os yw ymarferydd yn gadael y lleoliad a/neu ei gyflogaeth
- Os yw ymarferydd yn symud i leoliad gwahanol
- Os yw ymarferydd newydd yn ymuno â'r lleoliad

Ar hyn o bryd, caiff aelodau o staff Dechrau'n Deg eu cofnodi ar ein system os ydy arweinwyr neu gydlynwyr y lleoliad wedi rhoi gwybod i ni eu bod nhw'n ymarferwyr Dechrau'n Deg yn ystod y broses archwilio ac ar ddiwrnod HMS diweddar.

Bydd pob hyfforddwr yn derbyn cofrestr presenoldeb sydd wedi'i llenwi ymlaen llaw. Bydd y gofrestr yn cynnwys enwau'r cynrychiolwyr a'r cyfeimodau perthnasol cyfatebol. Bydd y cyfeirnodau yma'n cael eu nodi ar gofnodion o bresenoldeb a thystysgrifau. Felly, bydd modd i un cynrychiolydd arall yn unig, sydd wedi cael caniatâd gan y garfan, ddod ar y diwmod. Mae gan hyfforddwyr yr hawl i wrthod unrhyw gynrychiolydd sydd ddim wedi'i nodi ar y gofrestr.

4. Canslo neu Beidio â Mynychu

Rhaid i ymarferwyr sydd ddim yn gallu mynychu'r cwrs roi gwybod i'r Garfan o leiaf 10 niwrnod gwaith cyn i'r hyfforddiant ddechrau. Os nad oes modd i chi roi gwybod cyn y cyfnod canslo yma, bydd disgwyl i'r unigolyn ddod o hyd i rywun arall i gymryd ei le. Bydd disgwyl i'r unigolyn roi gwybod i'r Garfan fel bod modd i ni ddiweddarau'r gofrestr. Mae modd i ymarferwyr gysylltu â'r Garfan fel eu bod nhw'n cael eu rhoi ar restr aros. Os nad oes modd dod o hyd i unigolyn arall i gymryd ei le, byddwn ni'n codi tâl canslo awtomatig (sydd cyfwerth â chost y cwrs). Byddwn ni'n codi'r tâl cosb yma beth bynnag yw'r rheswm am ganslo'ch lle. Os nad oes modd i'r ymarferydd fynychu'r cwrs ar ddiwrnod yr hyfforddiant, dylech chi roi gwybod i'r Garfan. Ffoniwch 01443 744366/01443 744268 neu e-bostio hyfforddiantyblynnyddoeddcynnar@rctcbc.gov.uk i wneud hyn. Ar ôl gwneud hyn, dylai goruchwyliwr y lleoliad anfon esboniad ysgrifenedig o fewn 5 niwrnod gwaith. Os yw'r cwrs yn cael ei gynnal y tu allan i oriau'r swyddfa, ffoniwch y Garfan ar **07717432366**. Byddwn ni'n codi tâl cosb awtomatig am beidio â mynychu'r cwrs.

O bryd i'w gilydd, does dim modd i'n hyfforddwyr gynnal yr hyfforddiant ac mae rhaid canslo ar fyr rybudd. Byddwn ni'n rhoi gwybod i gynrychiolwyr gan ddefnyddio'r manylion cyswllt rydych chi wedi'u darparu. Byddwn ni'n aildrefnu'r hyfforddiant cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl. Gwnewch yn siwr eich bod chi'n rhoi'r manylion cyswllt diweddaraf i ni fel eich bod chi'n derbyn y neges yma.

5. Matrics Hyfforddi

Cafodd Matrics Hyfforddi ei lunio yn dilyn ymgynghoriad ag ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol y Blynnyddoedd Cynnar. Lluniodd y grŵp yma restr o gyrsiau hyfforddi sydd i'w gweld fel yr arferion gorau ar gyfer ymarferwyr Dechrau'n Deg RhCT. Rydyn ni'n cyfeirio at y rhestr yma o gyrsiau fel matrics hyfforddi. Bydd y matrics yma'n cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n gyson.

Caiff y cyrsiau hyfforddi eu hamlinellu yn y matrics ac mae'r cyrsiau wedi'u categorio yn ôl swyddi. Mae hyn yn cynnwys cyrsiau sydd wedi cael eu hargymell gan Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW), a chyrrff rheoledig eraill, yn ogystal â chysiau sydd wedi'u nodi fel arferion

gorau gan raglen Dechrau'n Deg RhCT a chysiau eraill sydd o fudd i wella datblygiad proffesiynol parhaus.

Bydd gan pob ymarferydd Dechrau'n Deg fynediad i'r matrices hyfforddi. Bydd y matrices yma'n rhoi trosolwg o'r holl gyrsiau hyfforddi craidd y dylai ymarferwyr Dechrau'n Deg eu cyflawni. Bydd y cyrsiau yma'n cael eu trefnu fesul tymor ac yn cael eu cynnal ar sail rhaglen dreigl er mwyn gwneud yn fawr o'r adnoddau sydd ar gael.

Dylai pob lleoliad Dechrau'n Deg lunio cynllun hyfforddiant er mwyn cadw cofnod o'r hyfforddiant y mae pob aelod o staff wedi'i gyflawni yn unol â'r gofynion sydd wedi'u nodi yn y Matrics. Yn unol â gofynion Dechrau'n Deg, dylai cynlluniau gael eu rhoi ar waith i sicrhau bod staff Dechrau'n Deg wedi cael yr hyfforddiant perthnasol erbyn 2021. Rydyn ni wedi cynnwys enghraifft o gynllun yn Atodiad A.

O bryd i'w gilydd, bydd hyfforddiant ychwanegol sydd, yn ôl Dechrau'n Deg RhCT, o fudd ac yn berthnasol yn cael ei drefnu. Mae disgwyl i ymarferwyr Dechrau'n Deg yn ymrwymo i'r hyfforddiant yma a mynychu'r sesiynau yn unol â hynny. Bydd 5 diwrnod Datblygiad Proffesiynol Parhaus yn cael eu neilltuo ar gyfer pob lleoliad. Bydd Dechrau'n Deg yn cynnal 3 diwrnod HMS Dechrau'n Deg bob blwyddyn ar gyfer ymarferwyr. Bydd y diwrnodau yma'n cael eu cynnal ar ddechrau pob tymor. Mae disgwyl i ymarferwyr Dechrau'n Deg fynychu sesiynau yn unol â Chytundeb Lefel Gwasanaeth Dechrau'n Deg. Bydd 2 ddiwrnod ychwanegol yn cael eu rhoi i leoliadau i'w defnyddio at ddiben wedi'i gytuno ymlaen llaw. Bydd angen i gynlluniau amlinellol manwl ar gyfer y diwrnodau yma gael eu cyflwyno i Reolwr Gofal Plant Dechrau'n Deg i'w cymeradwyo ymlaen llaw.

Mae yna amgylchiadau lle nad oes rhaid i ymarferwyr ailwneud y cwrs hyfforddi llawn er mwyn diweddarau eu gwybodaeth a thystysgrif. Bydd achosion lle mae diweddariad perthnasol ar yr un lefel ar gael yn cael eu hystyried. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd modd i gynrychiolwyr gyflawni diweddariad lefel 3 mewn perthynas â Diogelu yn lle cyflawni hyfforddiant lefel 3 o adnabod i ymateb mewn Diogelu. Cwrs

6. Archwiliad

Bydd angen cynnal archwiliad ar bob lleoliad Dechrau'n Deg bob tymor. Bydd hyn yn cynnwys ymarfer casglu data trwy e-bost ac un lle bydd aelod o'r Garfan yn mynd i'r lleoliad i gofnodi cymwysterau a hyfforddiant pob ymarferydd. Dylai arweinwyr lleoliadau fod ar gael ar gyfer yr ymweliad a sicrhau bod modd cael mynediad i ffeiliau ymarferwyr a darparu manylion cymwysterau ac unrhyw gyrsiau hyfforddi wedi'u cyflawni gan bob ymarferydd. Dylai arweinwyr hefyd sicrhau bod ymarferwyr lleoliadau ar gael pe hoffai aelod o staff siarad â nhw. Dylai cynllun hyfforddi wedi'i ddiweddarau fod ar gael hefyd. Bydd yr archwiliad yn cael ei gynnal gyda gwarchodwyr plant a darparwyr Dechrau'n Deg cymeradwy.

7. Darparwyr Gofal Plant a Gwarchodwyr Plant Cymeradwy

Mae disgwyl i leoliadau darparwyr gofal a gwarchodwyr plant Dechrau'n Deg cymeradwy hyrwyddo a defnyddio arferion gorau fel pe baen nhw'n lleoliad Dechrau'n Deg wedi'i gomisiynu. Yn unol â hyn, bydd un aelod o staff o bob lleoliad yn cael ei gategoreiddio'n ymarferydd Dechrau'n Deg. Bydd gofyn i aelodau eraill o staff yn y lleoliadau yma dalu am yr hyfforddiant.

Bydd angen i bob ymarferydd gofal plant sydd ddim yn ymarferydd Dechrau'n Deg dalu ffi cadw lle ar gyfer pob cwrs hyfforddi y maen nhw eisiau ei fynychu. Bydd y Garfan yn cyflwyno anfoneb ar ddiwedd pob mis er mwyn hawlio'r arian yma.

8. Lleoliad

Rydyn ni'n ystyried sawl peth wrth benderfynu pa mor addas yw lleoliad. Mae'r rhain yn cynnwys:

- A yw'r adeilad yn adeilad y Blynyddoedd Cynnar neu adeilad Dechrau'n Deg
- A yw'r lleoliad ar agor gyda'r hwyr ac ar benwythnosau
- Cost llogi
- Pa mor addas yw'r offer
- A oes modd cyrraedd y lleoliad gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus
- Argaeledd ystafelloedd
- A oes caffi ar y safle
- A yw'r ystafell hyfforddi'n addas
- A oes mynediad i bobl anabl
- A yw nifer y byrddau sydd ar gael yn addas ac a oes modd aildrefnu'r byrddau yma
- A oes toiledau hygrych
- A oes cyfleusterau gerllaw lle mae modd i gyfranogwyr brynu cinio.

O bryd i'w gilydd, byddwn ni'n newid lleoliad yr hyfforddiant ar fyr rybudd. Cadwch lygad ar fewnflwch y cyfeiriad e-bost rydych chi wedi'i ddarparu i'r Garfan i sicrhau eich bod chi'n derbyn unrhyw negeseuon sy'n ymwneud â hyn.

9. Sicrhau Ansawdd

Mae gofyn i ni werthuso'r cyrsiau rydyn ni'n eu cynnig er mwyn adolygu'r gwasanaeth a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Felly, mae derbyn adborth yn bwysig iawn i ni. Byddwn ni'n e-bostio ymarferwyr ar ôl yr achlysur hyfforddi gan gynnwys doler gyswllt sy'n arwain at ffurflen gwerthuso ar-lein. Byddwn ni ond yn rhyddhau'r dystysgrif / cofnod o bresenoldeb ar ôl i'r ffurflen gwerthuso yma gael ei chwblhau. Ar gyfer cyrsiau achrededig allanol, dylai cynrychiolwyr ganiatáu hyd at 8 wythnos i dderbyn eu tystysgrif.

Yn rhan o'r broses sicrhau ansawdd, bydd aelodau o Garfan y Blynyddoedd Cynnar a Chymorth i Deuluoedd yn mynychu'r cyrsiau hyfforddi ar hap i sicrhau bod y cwrs yn cydymffurfio â'n safonau uchel a gofynion.

10. Cod Ymarfer ar gyfer Cynrychiolwyr

- Dylai cynrychiolwyr gyrraedd lleoliad y cwrs o leiaf 15 munud cyn y mae disgwyl i'r cwrs ddechrau.
- Dylai cynrychiolwyr ymddwyn mewn modd proffesiynol ar bob adeg.
- Dylai cynrychiolwyr drin cynrychiolwyr eraill a thiworiaid â pharch ar bob adeg.
- Dylai cynrychiolwyr fod yn barod i gymryd rhan yn y sesiwn.
- Dylai ffonau symudol gael eu diffodd yn ystod y cyrsiau hyfforddi. Byddwn ni ond yn caniatáu eithriad ar gyfer y rheol yma os oes yna argyfwng ac mae'r hyfforddwr wedi cytuno i chi gadw eich ffôn symudol ymlaen.

- Rhaid i gyfranogwyr aros ar gyfer y sesiwn cyfan (oni bai ein bod ni wedi cytuno fel arall ymlaen llaw). Os nad ydych chi'n aros ar gyfer y sesiwn cyfan, fyddwn ni ddim yn rhyddhau eich cofnod o bresenoldeb nes bod y sesiwn cyfan wedi'i gwblhau.
- Ddylech chi ddim bwyta nac yfed yn ystod y cwrs, oni bai bod hyfforddwr y cwrs wedi cytuno bod modd i chi wneud hyn ymlaen llaw.
- Fel arfer, bydd disgwyl i ymarferwyr sy'n cwblhau arholiad yn ystod cyrsiau achrededig ddangos tystiolaeth o'r hyn y maen nhw wedi'i ddysgu. Os yw ymarferydd yn methu arholiad, y lleoliad fydd yn gyfrifol am dalu'r gost i ail-sefyll yr arholiad.
- Yn rhan o'n hymrwymiad i sicrhau ein bod ni'n cydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg, fyddwn ni ddim yn trin unrhyw geisiadau yn y Gymraeg yn llai ffafriol na cheisiadau sydd wedi'u cyflwyno yn y Saesneg. Dylai unrhyw geisiadau gael eu cyflwyno wrth gadw lle.
- Fyddwn ni ddim yn cynnal unrhyw gyrsiau sydd yn derbyn llai na 4 cais.
- Fydd cinio a lluniaeth ddim yn cael eu darparu yn ystod y cwrs ac mae disgwyl i gyfranogwyr wneud trefniadau addas sydd ddim yn cael effaith niweidiol ar raglen y diwmod.
- Rhaid i ymarferwyr sicrhau eu bod nhw'n gwisgo dillad ac esgidiau addas ar gyfer cyrsiau ymarferol. Ddylech chi ddim gwisgo esgidiau agored, sandalau neu fflip-flops gan eu bod nhw'n peri risg o ran iechyd a diogelwch. Os nad yw'r ymarferydd yn gwisgo dillad ac esgidiau addas, bydd hawl gyda'r hyfforddwr ofyn i'r unigolyn adael y cwrs. Os yw'r unigolyn yn dewis gwisgo dillad sydd wedi'u gwahardd, byddwn ni'n codi tâl ar gyfer lle'r unigolyn.
- Rhaid i ymarferwyr sicrhau eu bod nhw'n ddigon iach i gyflawni'r cwrs cyfan, gan gynnwys yr holl elfennau ymarferol. Rydyn ni'n eich annog i ohirio'r cwrs os oes gan yr unigolyn salwch tymor byr a fydd efallai'n cael effaith ar gyfraniad yr unigolyn o ran elfennau corfforol. Dylech chi roi gwybod i'r Garfan am unrhyw salwch tymor hir. Bydd modd i'r garfan drafod y mater yma gyda'r hyfforddwr.
- Dangoswch barch tuag at leoliad yr hyfforddiant a'i adnoddau ac offer. Sicrhewch fod y lleoliad yn lân ac yn dadus wrth adael.
- Dangoswch barch i'r hyfforddwr yn ystod y cwrs.
- Sicrhewch eich bod chi'n dychwelyd yn brydlon ar ôl egwyl ac yn barod i barhau gyda rhaglen y cwrs ar unwaith.
- Rydyn ni'n annog trafodaethau a her, cyn belled â'u bod nhw'n gefnogol ac yn barchus.
- Byddwch yn barod i gynnig adborth ar y cwrs.
- Mwynhewch y cwrs.

Atodiad A

Cofnod Hyfforddiant Ymarferwyr

Enw: _____
Plant

Swydd: Arweinydd / Dirprwy / Uwch Weithiwr / Gweithiwr Gofal

Dyddiad dechrau'r swydd: _____

Dyddiad Cwblhau Arfaethedig: _____

Aelod o staff â contract? _____

Cymwysterau: _____

Dyddiad Dod i Ben Gwriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd: _____

Gofynion Hyfforddi	Swydd	Dyddiad wedi'i gwblhau	Dyddiad Adnewyddu (nodwch Dd/B os nad yw'n berthnasol i'r swydd)	Copi o'r Dystysgrif?	Sylwadau
Lefel 2 Diogelwch Bwyd (Pob 3 blynedd)	Pawb				
Cwrs Diogelu Plant - o Adnabod i Ymateb Lefel 3 (Pob 5 mlynedd)	Pawb				
Diweddarau (Pob 3 blynedd)					
Diweddarau (Pob 3 blynedd)					
Cwrs Cymorth Cyntaf Brys yn y Gweithle Lefel 2 (Pob 3 blynedd)	Arweinydd / Dirprwy / Uwch Weithiwr				
Cymorth Cyntaf Pediatrig – Lefel 3 (Pob 3 blynedd)	Pawb				
Hyfforddiant Pasbort Codi a Chario Cymru Gyfan (Modiwlau A-F) (Pob 3 blynedd)	Pawb				
Swyddog Tân (Pob 3 blynedd)	Arweinydd / Dirprwy / Uwch Weithiwr				
Cynllun Gwên (Unwaith)	Pawb				
Prevent (Unwaith)	Pawb				
Cynorthwyyr Cymorth	2 gynrychiolydd				

Llythrennedd Emosiynol (Unwaith)					
Wellcomm (Unwaith)	Pawb				
Cydlynedd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Unwaith)	Pawb				
Hyfforddiant Dechrau'n Deg Unwaith	Pawb				
Iechyd a Diogelwch (Pob 3 blynedd)	Pawb				
Asesu Risg (Pob 3 blynedd)	Pawb				
Y Dull Mosaig (Unwaith)	Pawb				
Traed Pysur (Unwaith)	2 gynrychiolydd				
Elkfan (Unwaith)	Pawb				
Ymwybyddiaeth Diogelu Data (Unwaith)	Pawb				
Cymraeg (Unwaith)	Pawb				
Arwyddion a Symbolau (Unwaith)	Pawb				
Cydraddoldeb ac Amrywioldeb (Unwaith)	Pawb				
Datblygiad Plant - Cwrs Uwch (Unwaith)	Pawb				
Arwain Ymddygiad (Unwaith)	Pawb				
Materion Maeth (Unwaith)	2 gynrychiolydd				
Cyfathrebu â rhieni (Unwaith)	Pawb				
Goruchwyllo a Gwerthuso (Unwaith)	Arweinydd / Dirprwy				
Ymwybyddiaeth Anabledau Unwaith	2 gynrychiolydd				

